WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2012

# Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

**Cyhoeddwyd:** Ebrill 2013

**Cyfeirnod y ddogfen:** 6332012

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Mae'r blwch statws uchod yn berthnasol i fersiynau drafft o'r adroddiad sydd i gael eu trafod gyda'r corff a archwilir. Bydd blwch statws gwahanol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yr adroddiad ar ei wedd derfynol gan adlewyrchu'r ffaith y bydd y ddogfen yn cael ei gosod ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

Cyflawnwyd y gwaith gan KPMG ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb | 4 |
| Adroddiad manwl | |
| Ynghylch yr adroddiad hwn | 6 |
| Adran 1: Archwilio'r cyfrifon | 7 |
| Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2011-12 yr Ymddiriedolaeth, er wrth wneud hynny rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at rai materion archwilio a sylwadau | 7 |
| Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau | 10 |
| Mae trefniadau yn bodoli i gefnogi llywodraethu a sicrwydd bwrdd ond mae angen eu datblygu rhagor. Er bod prosesau newid trawsnewidiol yn bodoli, nid ydynt yn arwain at sefyllfa ariannol gynaliadwy na gwasanaethau gwell eto | 11 |
| Rhaid i'r Ymddiriedolaeth ddatblygu a gweithredu cynlluniau gweithlu integredig ac mae angen i'r Ymddiriedolaeth a'i phartneriaid iechyd gydweithio'n fwy effeithiol i wireddu buddion y newid trawsnewidiol parhaus, gyda'r Ymddiriedolaeth yn datblygu gwelliannau cynaliadwy i'w gwasanaethau, gyda chymorth cynlluniau ariannol tymor canolig a threfnau cyllido cadarn | 11 |
| Mae trefniadau corfforaethol i gefnogi llywodraethu da a sicrwydd bwrdd yn bodoli ond mae angen rhagor o waith datblygu ar fframweithiau risg a gwybodaeth reoli, yn arbennig | 13 |
| Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwella ei amserau ymateb i argyfwng ers 2008 ond mae wedi cydnabod bod angen gwneud gwelliannau parhaus er mwyn cyrraedd y targedau gofynnol. Bydd angen i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod newidiadau i'w strwythur rheoli a chyflwyno'r model ymateb clinigol newydd yn cyflawni'r buddion a ddymunir ac yn cefnogi'r gweithio mewn partneriaeth y bydd ei angen gyda Byrddau Iechyd Lleol | 14 |
| Atodiadau | |
| Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf | 16 |
| Ffi archwilio | 17 |

# Crynodeb

1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio a wnaed gennyf yn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (yr Ymddiriedolaeth) yn ystod 2012.
2. Mae'r gwaith rwyf wedi'i wneud yn yr Ymddiriedolaeth yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Ymddiriedolaeth i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.
3. Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Ymddiriedolaeth, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn a chytunir ar eu cywirdeb ffeithiol gyda swyddogion ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn Atodiad 1.
4. Crynhoir y negeseuon allweddol o'm gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

## Archwilio'r cyfrifon

5. Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2011-12 yr Ymddiriedolaeth, er wrth wneud hynny rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at rai materion archwilio a sylwadau. Mae'r rhain yn ymwneud â:
   - Thargedau ariannol allweddol
   - Perfformiad Ariannol 2011-12
   - Cyflwyniad ac addasiadau naratif
   - Datganiad Llywodraethu Blynyddol
   - Adroddiad ar gydnabyddiaeth
6. Deuthum hefyd i'r casgliadau canlynol:
   - paratowyd cyfrifon yr Ymddiriedolaeth yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol;
   - roedd gan yr Ymddiriedolaeth amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau risgiau camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol; ac
   - roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig yr Ymddiriedolaeth yn cael eu rheoli'n briodol ac yn gweithredu yn ôl y bwriad.
7. Sicrhaodd yr Ymddiriedolaeth gydbwysedd ariannol ar ddiwedd 2011-12, trwy ddyraniad adnoddau uwch na'r disgwyl oherwydd newidiadau gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chynnwys dibrisiant yn y cyfrifiadau cyllido. Fodd bynnag, cafodd yr incwm hwn ei wrthbwyso i raddau helaeth gan gyfraniad o £1.3 miliwn at darged effeithlonrwydd GIG Cymru.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

8. Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio ei adnoddau. Mae fy ngwaith wedi golygu mesur y cynnydd sydd wedi cael ei wneud wrth fynd i'r afael â'r meysydd ar gyfer datblygu pellach a nodwyd fel rhan o waith Asesu Strwythuredig y llynedd. Hefyd gwnaed adolygiadau archwilio perfformiad ar feysydd penodol lle y darperir gwasanaethau. Mae'r gwaith hwn wedi f'arwain at y casgliadau canlynol:

Mae trefniadau'r Bwrdd i gefnogi llywodraethu a sicrwydd bwrdd yn bodoli ond mae angen eu datblygu rhagor. Er bod prosesau newid trawsnewidiol yn bodoli, nid ydynt yn arwain at sefyllfa ariannol gynaliadwy na gwasanaethau gwell eto

- Rhaid i'r Ymddiriedolaeth ddatblygu a gweithredu cynlluniau gweithlu integredig ac mae angen i'r Ymddiriedolaeth a'i phartneriaid iechyd gydweithio'n fwy effeithiol i wireddu buddion y newid trawsnewidiol parhaus, gyda'r Ymddiriedolaeth yn datblygu gwelliannau cynaliadwy i'w gwasanaethau, gyda chymorth cynlluniau ariannol tymor canolig a threfnau cyllido cadarn.
- Mae trefniadau corfforaethol i gefnogi llywodraethu da a sicrwydd bwrdd yn bodoli ond mae angen rhagor o waith datblygu ar fframweithiau risg a gwybodaeth reoli, yn arbennig.
- Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwella ei amserau ymateb i argyfwng ers 2008 ond mae wedi cydnabod bod angen gwneud gwelliannau parhaus er mwyn cyrraedd y targedau gofynnol. Bydd angen i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod newidiadau i'w strwythur rheoli a chyflwyno'r model ymateb clinigol newydd yn cyflawni'r buddion a ddymunir ac yn cefnogi'r gweithio mewn partneriaeth y bydd ei angen gyda Byrddau Iechyd Lleol

## Cytunwyd ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn gyda'r Tîm Gweithredol

9. Cytunwyd ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 20 Chwefror 2013. Yna fe'i cyflwynir i gyfarfod dilynol y Bwrdd a darperir copi i bob aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolaeth. Rydym yn annog Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn gryf i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ei ystyried, bydd yr adroddiad hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru (www.wao.gov.uk).
10. Hoffem ddiolch o galon i staff ac aelodau'r Ymddiriedolaeth am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

## Ynghylch yr adroddiad hwn

11. Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn nodi canfyddiadau allweddol y gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Rhagfyr 2011 a mis Tachwedd 2012.

12. Ymgymeraf â'm gwaith yn yr Ymddiriedolaeth mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

    a. archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan yr Ymddiriedolaeth, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;

    b. bodloni fy hun yr aed i'r gwariant y mae'r cyfrifon yn ymwneud ag ef yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdodau sy'n ei lywodraethu; a

    c. bodloni fy hun bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

13. Mewn perthynas ag (c), rwyf wedi dod i gasgliadau pendant, neu fel arall, gan ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:

    - canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth;
    - gwaith a wnaed fel rhan o'm Hasesiad Strwythuredig diweddaraf o'r Ymddiriedolaeth, a ymchwiliodd i'r trefniadau o ran rheoli ariannol, llywodraethu ac atebolrwydd, a rheoli adnoddau;
    - hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth yn erbyn modiwl Llywodraethu ac Atebolrwydd y Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru;
    - gwaith archwilio perfformiad a wnaed yn yr Ymddiriedolaeth;
    - canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau; a
    - gwaith arall, megis ymarferion paru data ac ardystio hawliadau a ffurflenni.

14. Rwyf wedi cyflwyno nifer o adroddiadau i'r Ymddiriedolaeth eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn grynodeb o'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1.

15. Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:

    - archwilio'r cyfrifon; a
    - threfniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

16. Yn olaf, mae Atodiad 2 yn rhoi'r amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol gwneud fy ngwaith yn yr Ymddiriedolaeth, ochr yn ochr â'r ffi wreiddiol a nodwyd yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad.

# Adran 1: Archwilio’r cyfrifon

18. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau f’archwiliad o ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2011-12. Mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol ac yn nodi ei warged neu ddiffyg, ei enillion a cholledion cydnabyddedig a’i lif arian parod drwy'r datganiadau hyn. Mae paratoi datganiadau ariannol sefydliad yn rhan hanfodol o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

### Fy nghyfrifoldebau i

19. Wrth archwilio datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:
    - a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth a'i hincwm a'i gwariant am y cyfnod dan sylw;
    - a ydynt heb gamddatganiadau perthnasol – waeth wedi’u hachosi drwy dwyll neu drwy wall;
    - a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol a gofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
    - a yw'r rhan honno o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol; a
    - rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.
20. Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'm Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).
21. Wrth wneud y gwaith hwn, mae archwilwyr hefyd wedi ymchwilio i ddigonolrwydd y canlynol:
    - amgylchedd rheolaeth fewnol yr Ymddiriedolaeth; a’r
    - systemau ariannol ar gyfer llunio’r datganiadau ariannol.

## Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2011-12 yr Ymddiriedolaeth, er wrth wneud hynny rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a’r Pwyllgor Archwilio at rai materion archwilio a sylwadau

### Paratowyd cyfrifon yr Ymddiriedolaeth yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol

22. Nid oes gennym unrhyw bryderon am yr agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol. Cawsom fod y wybodaeth a ddarparwyd yn berthnasol, yn ddibynadwy, yn gymaradwy, o bwys ac yn hawdd ei deall. Daethom i’r casgliad bod y polisïau cyfrifyddu a’r amcangyfrifon yn briodol a bod datgeliadau’r datganiadau ariannol yn ddiduedd, yn deg ac yn glir;
23. Ni ddaethom ar draws anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad. Cawsom wybodaeth mewn modd amserol a defnyddiol ac ni chyfyngwyd ar ein gwaith.

24. O dan ISA 260 mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad ar y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth ar 30 Mai 2012. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r materion a sylwadau allweddol a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn yr Archwiliad o’r Adroddiad Datganiadau Ariannol

| Mater | Sylwadau’r Archwilwyr |
|---|---|
| Nodwyd yn ystod ein harchwiliad fod nifer fach o eitemau rhestrau eiddo wedi cael eu hychwanegu â llaw at y taflenni cyfrif yn ystod y cyfrifiadau gan nad oeddent yn ymddangos ar y pro fforma ac nad oeddent wedi cael eu cynnwys yn y rhestr stoc ddiwedd blwyddyn. | Roedd hyn yn rhannol oherwydd eu bod yn stoc anarferedig ond yn rhannol oherwydd gwall llaw; fodd bynnag, nid oedd y gwerth wedi’i allosod o bwys. Mae’r Ymddiriedolaeth wedi cytuno i gynyddu ymwybyddiaeth o’r ffordd y dylai personél lleol gyfrifyddu am stoc a all fod yn anarferedig trwy eu cyfeirio at y ‘weithdrefn reoli stoc’ berthnasol sy’n bodoli eisoes. |
| Nodwyd nifer o feysydd ar gyfer gwella’r rheolaethau cyffredinol TG mewn perthynas â chymhlethdod cyfrineiriau, diweddariadau i’r polisi TG, cyfleu cynlluniau parhad busnes ac ymadfer o drychineb a chyfleoedd i ddefnyddio’r adnoddau TG yn fwy effeithlon. | Er na chanfuom unrhyw wendidau sylweddol yn y gwaith archwilio TG a fyddai’n effeithio ar y datganiadau ariannol, gwnaethom rai argymhellion i’r Ymddiriedolaeth ymchwilio iddynt ymhellach i wella’r amgylchedd rheoli. |

25. Fel rhan o'm harchwiliad ariannol gwneuthum hefyd gynnal yr adolygiadau canlynol:

    a. Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan - deuthum i'r casgliad fod y wybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth ar 31 Mawrth 2012, a bod y ffurflen wedi cael ei pharatoi’n unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

    b. Datganiadau Ariannol Cryno a'r Adroddiad Blynyddol - deuthum i'r casgliad fod y datganiadau cryno yn gyson â'r datganiadau llawn a bod yr Adroddiad Blynyddol yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

26. Mae fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol Elusen Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi’i gwblhau bellach a rhoddwyd barn archwilio ddiamod ar 5 Rhagfyr 2012.

### Roedd gan yr Ymddiriedolaeth amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau risgiau camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol. Roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig yr Ymddiriedolaeth yn cael eu rheoli'n briodol ac yn gweithredu yn ôl y bwriad

27. Ni chanfuom unrhyw wendidau perthnasol yn eich rheolaethau mewnol. Rydym yn adrodd ar y rhain lle nad ydych eisoes yn ymwybodol ohonynt neu lle gallent fod yn arwydd o wendidau ehangach yn yr amgylchedd rheolaeth cyffredinol.

### Sicrhaodd yr Ymddiriedolaeth gydbwysedd ariannol ar ddiwedd 2011-12, trwy ddyraniad adnoddau uwch na'r disgwyl oherwydd newidiadau gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chynnwys dibrisiant yn y cyfrifiad cyllido. Fodd bynnag, cafodd yr incwm hwn ei wrthbwyso i raddau helaeth gan gyfraniad o £1.3 miliwn at darged effeithlonrwydd GIG Cymru

28. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi dweud bod ganddi warged bach o £54,000 am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012.
29. Yn 2011-12, arbedwyd £1.6 miliwn trwy beidio â dychwelyd incwm Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ar gyfer tanwariant dibrisiant yn erbyn y gyllideb. Mae hyn yn unol â chyfarwyddwyd diwygiedig gan Lywodraeth Cymru fod y dyraniad dibrisiant yn rhan o gyfanswm y gwariant refeniw ac nad yw wedi'i neilltuo. Fodd bynnag, bu gostyngiad o £1.3 miliwn yn incwm Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru i gynorthwyo â chyflawni cydbwysedd ariannol cyffredinol GIG Cymru.
30. Roedd tâl criwiau ambiwlans £3.1 miliwn yn uwch na ffigur o £81.4 miliwn yn y gyllideb. Mae hyn i'w briodoli i raddau helaeth i lefel uwch o oramser o'i chymharu â'r lefel gynlluniedig er mwyn cynnal y perfformiad gweithredol ac anawsterau a achoswyd gan oedi wrth drosglwyddo cleifion. Cafodd effaith y gorwariant hwn ei gwrthbwyso gan arbedion o £0.9 miliwn ar dâl staff uwch a gweinyddol ac ar feysydd nad ydynt yn ymwneud â thâl megis TGCh a meddalwedd, £2.2 miliwn.

# Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

32. Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun fod gan gyrff y GIG drefniadau priodol i sicrhau eu bod yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus wrth ddefnyddio eu hadnoddau. Rwyf wedi gwneud amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn yr Ymddiriedolaeth dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- adolygu trefniadau'r Ymddiriedolaeth i reoli adnoddau, fel rhan o'm gwaith Asesu Strwythurol, gan gynnwys rheoli ariannol, y gweithlu a pherfformiad ac ymgysylltu;
- asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth trwy fy ngwaith Asesu Strwythuredig gyda phwyslais arbennig ar gadernid fframwaith sicrwydd ac amgylchedd rheolaeth fewnol cyffredinol y Bwrdd; a
- rhoi'r wedd derfynol ar fy ngwaith ar Drawsnewid Gofal heb ei Drefnu.

33. Mae'n bwysig i'r canfyddiadau hyn gael eu darllen hefyd yng nghyd-destun y ffactorau canlynol:

- Cyfrifoldeb yr Ymddiriedolaeth a'r saith Bwrdd Iechyd yng Nghymru yw gwella effeithiolrwydd gofal heb ei drefnu. Mae oedi wrth drosglwyddo cleifion mewn adrannau brys yn cael effaith sylweddol ar allu'r Ymddiriedolaeth i gyrraedd ei dargedau perfformiad. Yr ateb yw i'r Ymddiriedolaeth sicrhau cymorth gan y Byrddau Iechyd, a chydweithio'n dda gyda hwy, i sicrhau bod cyn lleied o oedi ag sy'n bosibl a bod criwiau'n cael eu rhyddhau i ymateb i argyfyngau eraill.
- Mae gan yr Ymddiriedolaeth refeniw penodedig ar gyfer pob blwyddyn ariannol a rhaid iddi gyllidebu ar gyfer ei chostau a'u rheoli fel nad yw'n mynd i ddiffyg. Un elfen allweddol yn ei chostau gweithredu yw costau staff. Mae codiadau yn ei refeniw ers 2008 wedi talu am gostau staff sydd wedi codi, yn bennaf yn sgil y cytundeb tâl Cymru Gyfan. Mae'r tâl ac amodau gwasanaeth cenedlaethol yn gymwys i'r Ymddiriedolaeth, ynghyd â holl gyrff y GIG yng Nghymru. Nid yw nifer gyfartalog staff ambiwlans wedi newid yn sylweddol dros y 3 blynedd diwethaf. Mewn adroddiad a baratowyd gan Lightfoot yn 2009 daeth yr ymgynghorwyr i'r casgliad nad oedd nifer y staff ambiwlans yn caniatáu i'r Ymddiriedolaeth gyrraedd y targedau amser ymateb i alwadau'r hen Gategori B. Amcangyfrifodd yr adroddiad fod angen o leiaf £3.7 miliwn mewn costau staff ambiwlans ychwanegol i gyrraedd y targedau perfformiad Categori B. Oherwydd cyfyngiadau cyllidebol nid yw nifer y staff ambiwlans wedi codi'n sylweddol ers i adroddiad Lightfoot gael ei ysgrifennu. Mae hyn yn cael effaith andwyol ar allu'r Ymddiriedolaeth i gyrraedd ei thargedau perfformiad ar gyfer amserau ymateb Categori B ac ar gyfer lefelau goramser.

34. Crynhoir prif ganfyddiadau'r gwaith hwn o dan y penawdau canlynol.

## Mae trefniadau i gefnogi llywodraethu a sicrwydd bwrdd yn bodoli ond mae angen eu datblygu rhagor. Er bod prosesau newid trawsnewidiol yn bodoli, nid ydynt yn arwain at sefyllfa ariannol gynaliadwy na gwasanaethau gwell eto

### Rhaid i'r Ymddiriedolaeth ddatblygu a gweithredu cynlluniau gweithlu integredig ac mae angen i'r Ymddiriedolaeth a'i phartneriaid iechyd gydweithio'n fwy effeithiol i wireddu buddion y newid trawsnewidiol parhaus, gyda'r Ymddiriedolaeth yn datblygu gwelliannau cynaliadwy i'w gwasanaethau, gyda chymorth cynlluniau ariannol tymor canolig a threfnau cyllido cadarn

35. **Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu o dan gyfyngiadau ariannol ac mae ganddi waith i'w wneud i gynorthwyo deiliaid cyllideb lleol wrth gyflawni ei hamcanion strategol. Mae'r tîm gweithredol yn cydnabod y bydd rheoli ariannol cadarn a chynaliadwy'n allweddol i gyflawni newid trawsnewidiol ac i sicrhau diogelwch cleifion.**

36. Er y cytunwyd ar gyllid craidd yr Ymddiriedolaeth gyda Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, ni chytunwyd yn derfynol gyda'r Byrddau Iechyd ar rai agweddau ar y gyllideb ar gyfer 2012-13 nes mis Tachwedd 2012. Bydd hyn yn effeithio ar y gwaith o weithredu amcanion strategol yr Ymddiriedolaeth. Mae angen cytuno ar strategaeth i drafod a threfnu cyllid yn y dyfodol gyda phartneriaid gofal iechyd yr Ymddiriedolaeth er mwyn sicrhau y cytunir ar refeniw cyn i'r flwyddyn ariannol ddechrau.

37. Mae angen i gynlluniau ariannol gymryd i ystyriaeth amcanion tymor canolig i dymor hir ac nid cael eu trafod un flwyddyn ar y tro. Byddai contract cyllido tymor hirach yn hwyluso cynllunio tymor canolig.

38. Roedd yna ddiffyg o £1 miliwn yn erbyn y gyllideb ddrafft ar ddiwedd mis Awst 2012 ac mae yna her sylweddol i gyflawni'r arbedion cynlluniedig o £5.5 miliwn yn ail chwe mis y flwyddyn er mwyn mantoli'r cyfrifon. Mae angen i'r Ymddiriedolaeth sicrhau nad yw ansawdd y gwasanaeth a diogelwch cleifion yn cael eu peryglu gan yr angen i sicrhau arbedion. Yn y dyfodol bydd swyddogaeth cyllid ganolog ragweithiol yn bwysig i gynorthwyo a chynghori deiliaid cyllideb gyda'r gwaith o fonitro ac asesu perfformiad ariannol yn ystod y flwyddyn.

39. **Mae'r Ymddiriedolaeth yn agos at roi'r wedd derfynol ar ei strategaethau craidd ac yn awr mae angen iddi ddatblygu a gweithredu ei Chynllun Gweithlu Integredig er mwyn cyflawni ei hamcanion.**

40. Mae strategaeth glinigol glir yn agos at gael y wedd derfynol ac ar ôl cael cytundeb ar hon gellir datblygu a gweithredu'r Cynllun Gweithlu Integredig gan dynnu ynghyd waith yr Ymddiriedolaeth hyd yma sydd wedi cynnwys adolygiad o rotâu, polisïau ar seibiannau gorffwys a gofynion cymhwysedd ar gyfer gwahanol raddau staff. Mae'r gwaith o ddatblygu a gweithredu Cynllun Gweithlu Integredig yn faes hanfodol y mae angen i'r Ymddiriedolaeth weithio arno er mwyn sicrhau y cyflawnir ei therfyn amser, sef Rhagfyr 2013.

41. Mae’r Ymddiriedolaeth yn cymryd rhan weithredol yn yr ymgyrch 1000 o Fywydau a Mwy, sy’n canolbwyntio’n gadarnhaol ar ddiogelwch a phrofiad cleifion. Fodd bynnag, mae amserau ymateb wedi gostwng ychydig a bydd angen cadw llygad barcud ar effaith y newidiadau ar ddiogelwch cleifion.

42. **Bellach mae’r Ymddiriedolaeth wedi gorffen ailstrwythuro lefel uwch y sefydliad ac mae mewn sefyllfa well i greu newid a gwneud y sefydliad yn fwy cydlynus.** Cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu i gyfleu effaith y newid sefydliadol i’r staff. Bydd yn bwysig bod yr Ymddiriedolaeth wedi defnyddio’r Arolwg Staff ym mis Ionawr 2013 i asesu morâl a phroblemau a datblygu cynlluniau gweithredu yn unol â hynny, yn enwedig yn ystod y cyfnod hwn o newid.

43. **Mae’r Ymddiriedolaeth yn canolbwyntio’n fwy ar ganlyniadau clinigol. Hefyd mae angen iddi sicrhau y diwellir anghenion parhaus y staff ym maes datblygu clinigol ac y rhoddir hyfforddiant iddynt yn y maes hwnnw.** Cyflwynwyd y Model Ymateb Clinigol ym mis Rhagfyr 2011, gan newid y ffordd y caiff galwadau eu categoreiddio. Fodd bynnag, cydnabu’r Ymddiriedolaeth nad oedd rhai agweddau ar y model yn gweithio cystal ag y bwriedid yn yr amgylchedd gweithredol. Hefyd nid oedd y ffordd y defnyddiwyd y model yn gyson ledled Cymru. Mae angen cwblhau’r adolygiad sydd ar y gweill o’r Model Ymateb Clinigol yn brydlon ac mae angen iddo gael ei ailgyflwyno mewn ffordd gyson ar draws yr ystafelloedd rheoli argyfyngau.

44. **Mae’r Ymddiriedolaeth wedi gweithio’n galed i ganfod a chasglu gwybodaeth ac adolygu tueddiadau mewn perthynas ag adolygiadau o rotâu ac absenoldeb salwch er mwyn mynd i’r afael â phroblem lefelau absenoldeb salwch sy’n uchel ac yn codi.** Fel y nodir uchod, mae wedi gwneud cynnydd da wrth ganfod y problemau hanfodol o ran y gweithlu a bellach mae ar adeg pan mae angen rhoi cynlluniau gweithredu ar waith a monitro effaith y gwaith o fynd i’r afael â’r problemau.

45. Mae’r Ymddiriedolaeth yn gweld cynnydd mewn absenoldeb salwch; cynyddodd absenoldeb salwch i 6.77 y cant rhwng mis Awst 2011 a mis Gorffennaf 2012 o’i chymharu â 6.55 y cant y flwyddyn flaenorol. Mae’r Ymddiriedolaeth yn ymchwilio i dueddiadau o ran absenoldeb salwch ac wedi cyflwyno mentrau megis y gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol mewnol, Gwasanaeth Cymorth i’r Staff a Grŵp Lles. Bydd yn bwysig i’r Ymddiriedolaeth fonitro effaith ac effeithiolrwydd y mentrau hyn a datblygu cynlluniau gweithredu i fynd i’r afael â phroblemau yn ymwneud â salwch lle mae meysydd sy’n broblem wedi cael eu canfod.

46. **Mae angen i’r Ymddiriedolaeth a’r Byrddau Iechyd gydweithio’n fwy effeithiol er mwyn lleihau oedi wrth drosglwyddo cleifion yn adrannau brys ysbytai a darparu gwasanaeth da i’r cleifion.**

47. Fel y dywedwyd yng ngwaith asesu strwythuredig y llynedd, mae angen i’r Ymddiriedolaeth a’r Byrddau Iechyd sy’n bartneriaid iddi gydweithio’n fwy effeithiol, yn enwedig mewn perthynas ag oedi wrth drosglwyddo cleifion. Mae nifer yr achosion o hyn wedi cynyddu yn 2012-13 ac yn creu risg sylweddol i ddiogelwch cleifion, a hynny i’r claf sy’n cael ei drin ac oherwydd nad yw’r criwiau ambiwlans ar gael i ymateb i alwadau argyfwng. Mae’n bosibl y bydd cau rhai Unedau Mân Anafiadau, yn unol â’r bwriad, hefyd yn effeithio ar amserau trosglwyddo.

48. Mae strwythur newydd y sefydliad yn alinio penaethiaid gwasanaeth gydag ardaloedd Byrddau Iechyd. Dylai hyn hwyluso cydweithio agosach, y mae angen taer amdano er mwyn mynd i'r afael ag oedi wrth drosglwyddo cleifion.

## Mae trefniadau corfforaethol yn bodoli i gefnogi llywodraethu da a sicrwydd bwrdd ond mae angen rhagor o waith datblygu ar fframweithiau risg a gwybodaeth reoli, yn arbennig

49. **Mae gan yr Ymddiriedolaeth amgylchedd rheolaeth fewnol a ddylai gefnogi sicrwydd Bwrdd effeithiol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi nodi bod canfod a rheoli risg yn faes i'w adolygu er mwyn gwella'r ffordd y caiff risg ei alinio yn erbyn yr amcanion strategol.** Bydd hwn yn faes pwysig i'r Ymddiriedolaeth ei adolygu er mwyn sicrhau y rheolir risg yn ddigonol, yn enwedig oherwydd y newidiadau gweithredol mae'r Ymddiriedolaeth yn eu rhoi ar waith.

50. **Mae trefniadau'n bodoli i roi prawf ar effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu a sicrwydd a'u gwella.** Mae yna linellau adrodd clir rhwng y Bwrdd a'i is-bwyllgorau a swyddogaeth cymorth corfforaethol da yn cynorthwyo â'r gwaith o ddod â phapurau a phwyntiau gweithredu wedi'u diweddaru i'r pwyllgorau cywir. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi canfod rhai mân feysydd lle mae angen eglurder o ran adrodd, sef adrodd ariannol a materion yn ymwneud â'r gweithlu.

51. Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi ystyried gofynion y llawlyfr newydd i'r Pwyllgor Archwilio. Gan fwyaf mae'n fodlon bod y gofynion yn cael eu cyflawni, gyda nifer fach o fân ddiwygiadau'n cael eu gwneud i'r trefniadau er mwyn cydymffurfio â'r arferion gorau.

52. **Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau priodol i roi prawf ar effeithiolrwydd y systemau rheolaeth fewnol ac ymateb i ganlyniadau profion rheolaeth fewnol. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi gwneud cynnydd wrth reoli a monitro pryderon a dysgu oddi wrth bryderon.**

53. Mae gan yr Ymddiriedolaeth gyfle i wella ei fframwaith sicrwydd trwy greu mecanwaith i ddwyn ynghyd yr holl feysydd sicrwydd, er enghraifft pryderon, adroddiadau blynyddol pwyllgorau. Byddai hyn yn hwyluso'r adolygiad ehangach o berfformiad.

54. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu proses sy'n cefnogi cyfranogiad y Bwrdd i'r gwaith o ddatblygu, clirio a chyhoeddi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

55. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweithio'n galed i wella'r ffordd y caiff cwynion a phryderon eu rheoli a'u monitro. Sefydlwyd Grŵp Monitro Pryderon sy'n casglu a dadansoddi materion a thueddiadau mewn perthynas â phryderon. Mae angen i'r Ymddiriedolaeth barhau i droi dadansoddiadau o bryderon yn ddatrysiadau.

56. **Gall y Bwrdd a'i is-bwyllgorau gael gwybodaeth reoli berthnasol er mwyn cynllunio, gwneud penderfyniadau a bod yn sail i waith craffu a sicrwydd bwrdd effeithiol, er y gellid gwella amseroldeb y wybodaeth a ddarperir i'r is-bwyllgorau.**

57. Yn gyffredinol, o'r dogfennau a adolygwyd, mae'r wybodaeth mae'r bwrdd a'i is-bwyllgorau'n ei chael o ansawdd da, gyda chrynodebau priodol o gytbwys, ac mae yna graffu a herio priodol. Gwnaethpwyd gwelliannau i'r wybodaeth a geir yng 'Ngherdyn Sgorio Perfformiad' yr Ymddiriedolaeth ac mae yna well adroddiadau eithrio.

58. Mae angen parhau i wella er mwyn sicrhau y caiff data eu casglu'n amserol a'u cyflwyno'n glir ar y Cerdyn Sgorio Perfformiad ac y rhoddir hyn i'r cyfarwyddwyr anweithredol yn rheolaidd. Er nad yw'n disodli'r angen am gofnodion electronig, dylai treialu ysgrifbinnau digidol i gasglu gwybodaeth am gleifion, fel y bwriedir ar hyn o bryd, gynorthwyo â chasglu gwybodaeth yn fwy amserol.

59. Byddai arolygon cleifion rheolaidd yn cynorthwyo â'r gwaith o gymharu perfformiad a chynnydd gyda phrofiad cleifion. Mae yna botensial i'r Ymddiriedolaeth gydweithio gyda'r Byrddau Iechyd a chymryd rhan yn arolygon cleifion y Byrddau Iechyd.

60. Nododd arolwg Aelodau'r Bwrdd yr hoffai'r Cyfarwyddwyr Anweithredol weld mwy o gymaryddion perfformiad gyda gwasanaethau ambiwlans eraill. Er bod cymariaethau uniongyrchol yn anodd weithiau, gallant fod yn gyfeirbwynt defnyddiol.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwella ei amserau ymateb i argyfwng ers 2008 ond mae wedi cydnabod bod angen gwneud gwelliannau parhaus er mwyn cyrraedd y targedau gofynnol. Bydd angen i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod newidiadau i'w strwythur rheoli a chyflwyno'r model ymateb clinigol newydd yn cyflawni'r buddion a ddymunir ac yn cefnogi'r gweithio mewn partneriaeth y bydd ei angen gyda Byrddau Iechyd Lleol

61. Mae gwasanaethau gofal heb ei drefnu ymysg y rhannau o'r system iechyd a gofal cymdeithasol sydd o dan y pwysau mwyaf. Mae'r Ymddiriedolaeth yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o ddarparu gofal heb ei drefnu ac o gynllunio a dylunio'r system o ofal heb ei drefnu ochr yn ochr â'i phartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol. Yn ystod diwedd 2011 a dechrau 2012 gwnaeth KPMG waith ar ran yr Archwilydd Cyffredinol i weld a oedd yr Ymddiriedolaeth yn cyfrannu'n effeithiol at y gwelliannau parhaus y mae eu hangen yn y gwasanaethau gofal heb ei drefnu ledled Cymru.

62. Roedd y gwaith yn cynnwys cyfweliadau gyda staff ac adolygiadau o ddogfennau a data. Hefyd, defnyddiodd yr adolygiad ganfyddiadau o gyfweliadau gyda 75 o griwiau ambiwlans a gynhaliwyd fel rhan o waith Swyddfa Archwilio Cymru mewn byrddau iechyd.

63. Y casgliad cyffredinol o'r gwaith oedd bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwella ei hamserau ymateb i argyfwng a chydnabuwyd bod angen gwneud gwelliannau parhaus. Dyna pam mae'r Ymddiriedolaeth wedi dechrau ailstrwythuro ei threfniadau rheoli, a fydd yn cefnogi'r gwaith o wireddu strategaeth gwasanaeth yr Ymddiriedolaeth, Cydweithio i Lwyddo. Bellach mae angen i'r Ymddiriedolaeth symud ymlaen â hyn ac achub ar y cyfleoedd a ddarperir gan y model ymateb clinigol newydd a chryfhau ei defnydd o ddata a'i phartneriaethau gyda Byrddau Iechyd Lleol.

64. Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuom y canlynol:
   - mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwella ei hamserau ymateb i argyfwng, sydd wedi cynnwys gwariant ychwanegol, ond mae mesurau perfformiad eraill, sy'n canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau, islaw'r targed o hyd;
   - bellach mae angen i'r Ymddiriedolaeth symud ymlaen ac achub ar y cyfleoedd a ddarperir gan y model ymateb clinigol newydd i fynd i'r afael â'r heriau diwylliannol a sefydliadol a erys;

- mae angen i’r Ymddiriedolaeth a’i phartneriaid weithio’n agosach i reoli’r galw a gwneud gwelliannau cynaliadwy i’r system gofal heb ei drefnu; ac
- mae’r gwaith o fonitro perfformiad ac ansawdd data wedi gwella ond mae angen i’r Ymddiriedolaeth, ar y cyd gyda GIG Cymru, casglu data’n fwy amserol a defnyddio data’n fwy deallus.

65. Cyhoeddwyd ein hadroddiad ym mis Mai 2012 ac mae’r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd o ran nifer o’r argymhellion a gafwyd yn yr adroddiad. Bydd ein gwaith yn 2013 yn cynnwys adolygiad arall o’r cynnydd sy’n cael ei wneud.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
| --- | --- |
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Archwiliad o'r Adroddiad Datganiadau Ariannol | 30 Mai 2012 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | 27 Mehefin 2012 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol Cryno | 27 Mehefin 2012 |
| Datganiad sicrwydd Cyfrifon Llywodraeth Gyfan | 25 Gorffennaf 2012 |
| Barn ar Ddatganiadau Ariannol Elusen Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | 5 Rhagfyr 2012 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Asesiad Strwythuredig 2012 | 28 Tachwedd 2012 |
| Asesiad Strwythuredig a Thrawsnewid Gofal heb ei Drefnu | 30 Mai 2012 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Amlinelliad o Waith Archwilio 2012 | 22 Chwefror 2012 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd yr Amlinelliad o Waith Archwilio ar gyfer 2012 ffi archwilio arfaethedig o £119,260 (heb gynnwys TAW). Mae'r ffi wirioneddol yn unol â'r cynnig hwn o £119,260 (heb gynnwys TAW).

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk